Ysgolion Pentreuchaf

29. Polisi Cwricwlwm Cymreig

Nod

Rhoi cyfleoedd i'r disgyblion, lle bo hynny'n briodol, i ddatblygu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy astudio holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, Addysg Grefyddol a'r Canlyniadau Dymunol.

Amcanion

Drwy wersi ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol, bydd cyfleoedd i ddathlu nodweddion sy'n rhoi i Gymru ei hunaniaeth cymdeithasol a diwylliannol unigryw.

Canllawiau

1. Dilyn y canllawiau a'r cyfarwyddiadau sydd yn y ddogfen 'Cyfnodau Allweddol 1 a 2 o'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru'.
2. Talu sylw hefyd i rai o'r agweddau yn y rhestr isod (esiamplau sydd yma)

i) Cymraeg – Mei Mac, Twm Morys, Myrddin ap Dafydd, Ioan Gruffydd, Rhys Ifans, Y Mabinogi, Blodeuwedd, Gelert ynghŷd â chwedlau a hanesion lleol.

ii) Saesneg – straeon a barddoniaeth gan awduron o Gymru ond wedi eu hysgrifennu yn Saesneg – R. S. Thomas, Dylan Thomas

iii) Mathemateg – Robert Recorde o Ddinbych y Pysgod ddyfeisiodd yr arwydd '=' – hafalnod,

iv) Gwyddoniaeth - Marconi

v) Technoleg Gwybodaeth – defnyddio safleoedd ar y wê i ymchwilio i wahanol agweddau.

vi) Hanes – Betsi Cadwaladr, Edmwnd Prys (Tyddyn Du), Hedd Wyn (Yr Ysgwrn), Sarn Helen, Tomen y Mur, Chwareli llechi Blaenau Ffestiniog, Y Las Ynys, Castell Harlech, Beddgelert, William Morgan, Mari Jones, Dewi Sant, Plas Tan y Bwlch.

vii) Daearyddiaeth – Blaenau Ffestiniog, Llangollen, Porthmadog, Plas Tan y Bwlch, baner Cymru

viii) Addysg Grefyddol – Edmwnd Prys, William Morgan, Mari Jones, Tomos Charles, Dewi Sant, seintiau – Enlli, Twrog, traddodiad capeli Cymru

ix) Dylunio a Thechnoleg- William Rees Jones (ddyfeisiodd y meicrodon), Laura Ashley gynlluniodd ddefnyddiau, pontydd, cerfluniau lleol e.e. Hedd Wyn

x) Celf – Catrin Williams, Eluned Rhys Parry, Rob Piercy, Kyffin Williams, patrymau Celtaidd

xi) Cerddoriaeth – Dafydd Iwan, Caryl Parry Jones, Bryn Terfel, Bryn Fôn, Charlotte Church, Cerdd Dant, Canu Gwerin, Super Furry Animals, emynau a charolau Cymreig, y delyn, Hen Wlad fy Nhadau

xii) Addysg Gorfforol – Gavin Henson, Tammy Gray-Thompson, dawnsio gwerin, Colin Jackson, Iwan Thomas, rygbi

3. Hybu'r ymdeimlad o berthyn drwy ddealltwriaeth o werthoedd y gymdeithas leol, dathlu'r ffaith fod diwylliant, iaith a thraddodiadau Cymru yn nodedig, tra'n cydnabod a pharchu diwylliant eraill sy'n byw yng Nghymru bellach.
4. Dathliadau – Dydd Gwyl Dewi, Eisteddfodau'r Urdd, Glanllyn, Canu'r Plygain
5. Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a byddwn yn ymdrechu'n gyson i wella safon iaith lafar pob plentyn ac oedolyn yn yr ysgol.

Casgliad

Bydd staff yr ysgol yn gwneud eu gorau i sicrhau y caiff pob disgybl gyfle cyfartal i gyrraedd ei botensial yn y maes hwn. Bydd amgylchedd yr ystafell ddosbarth, ac amgylchedd yr ysgol yn gyffredinol yn cael ei ddefnyddio i hybu'r broses.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd:_____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad:_____